Cylchlythyr Ysgol Terrig postterrig@hwbcymru.net
01352 770235




Helo a chroeso i gylch lythyr cyntaf y flwyddyn 2025/2026
Mae Meithrin wedi setlo yn dda iawn ac maent yn rhan fawr o'r ysgol yn barod. Pawb wedi gwneud ffrindiau a phawb yn eu hadnabod bellach. Croeso mawr iddyn nhw a dyma chi lun ohonynt yn mwynhau eu hunain.

Hello and Welcome to our first Newsletter of the academic year.
The Meithrin class have all settled in really well and it is lovely to see them in class, making friends. A big welcome to all of them and here is a photo of them in the forest.



Beicio
Dechrau'r flwyddyn cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 wersi beicio.  Mae'r rhain yn wersi pwysig iawn i'r plant ac maent yn cael gwers ar sut i feicio yn saff ar y ffordd.  Dyma nhw wedi cael eu tystysgrifau.

At the beginning of the year 5 and 6 had cycling lessons and how to stay safe on the roads.  These are very important lessons and I hope they are now happy to cycle on the roads safely.



Ymweliad Fferm Swans
Ar ddechrau'r flwyddyn aethom am dro i Fferm Swans.  Aethom i weld y blodau haul a oedd cyn daled neu yn dalach na nifer ohonom.  Mi oedd yn brynhawn hyfryd dros ben gyda'r haul uwch ein pen ar blodau haul yn gwenu.  Cafodd pawb fynd a blodyn haul adref gyda ni.  Hefyd, cawsom weld y mocha r moch bach
Diolch yn fawr iawn i Clive a Gail am ei croeso.

On one very sunny day we went on a walk to visit Swan Farm and it's glorious Sun Flowers.  Some of the flowers were even taller than us.  A big thank you to Clive who kindly let everyone go home with a sunflower.  We all saw the little piglets that are situated behind the shop.
Thank you to Clive and Gail Swan for welcoming us once again.


SWANS FARM SHOP



postterrig@hwbcymru.net

Ymweliad Xplore!
Cafodd dosbarth Meillion a dosbarth Clychau'r Gog fore diddorol gyda Xplore! Cafwyd gweithgareddau am y corff ac ymchwilio i agweddau gwahanol o'r corff. Cafodd blwyddyn 5 a 6 wersi ar pontydd ac adeiladu rhai gwahanol ga neu profi wrth rhoi pwysau arnynt.  Bore gwerth chweil a Diolch i Xplore am y gweithdy a oedd yn rhad ac am ddim.

Xplore! visited school and years 3 and 4 and years 5 and 6 had 2 separate workshops.
Year 3 and 4 had a body workshop and found out all sorts of information about how the body fights infections.  They even got to compare different colour wee!
Year 5 and 6 built bridges and tested them out to see which was the strongest.
A very productive morning and thank you to Xplore for the free workshops.





Taith Gerdded

I godi arian tuag at adnewyddu y neuadd, fe aeth yr ysgol gyfan am dro gyda Ysgol Parc Y Llan. Aeth dosbarth Llygaid Y Dydd a Lili Wen Fach am dro o gwmpas Fferm Swans. Diolch yn fawr i Clive Swan am ddangos y ffordd i ni. Fe gerddodd y plant yn bell iawn o gwmpas y caeau, a gweld y moch sydd yn dop y caeau. Fe gawson nhw ddiod a bisged i orffen ac fe roedd pawb wedi blino yn lân. Chwarae teg i bob un ohonyn nhw fe wnaethon nhwyn hynod o dda.

Aeth dosbarth Meillion a Clychau'r Gog am dro yn bellach o gwmpas caeau Fferm Carreg Y Llech. Roedd gennym ni yr arweinwr gorau yn y byd, Catrin Morgan.Cerddom dros gaeau a oedd gyda'r golygfeydd gorau yn Sir Fflint. Dringwyd camfeydd, agorwyd giatiau a'u cau ar ein holau. Gorffenwyd yn Fferm Carreg Y Llech a cafodd pawb ysgytlaeth o'r peiriant. Diolch yn fawr iawn i Ed Morgan am ei groeso a'r ysgytlaeth.

Roedd yn ddiwrnod bendigedig ar haul yn gynnes iawn. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain. Wnaeth neb gwyno am y cerdded ac fe wnaethon fyhafio yn benigamp.

Codwyd £1,132.50 o arian tuag at yr adnewyddu. DIOLCH YN FAWR IAWN

To help school raise funds towards the refurbishment of the school hall the whole school did a Sponsored Walk. Meithrin, Derbyn and Year 1 and 2 went for a walk around Swan Farm and went to see the pigs. They walked so far up and around the farm and had a drink and biscuit at the end. Thank you to Gail and Clive once again for letting us walk around their fields.

Year 3,4,5 and 6 went for a longer walk. We went up the village and on to Carreg Y Llech fields. We had the best guide, Catrin Morgan. The views were incredible, they stretched over most of Flintshire. We climbed styles, went through gates and remembered to close them. We finished at Carreg Y Llech and had the best milkshakes ever. A big Thank You to Ed Morgan for his hospitality.

It was such a good day. The sun shone and it was lovely and warm. Everyone enjoyed themselves and every single child was amazing, they all behaved brilliantly and no-one complained about the walking.

We raised £1,132.50 towards the refurbishment. THANK YOU VERY MUCH

 postterrig@hwbcymru.net











postterrig@hwbcymru.net

Sioe Mewn Cymeriad

Fel rhan o thema dosbarth Clychau'r Gog fe ddaeth drama un dyn i ddysgu'r plant am yr Ail Ryfel Byd. Roedd yn sioe rhyngweithiol ar plant yn cael cymeryd rhan a gwisgo i fyny er mwyn cyfoethogi eu profiad o'r Sioe. Roedd y sioe yn effeithiol iawn yn rhoi blas ar sut oedd bywyd yn yr Ail Ryfel Byd.

As part of the World War 2 topic year 5 and 6 are studying a show visited school about how life was during these times. They experienced the sound of the siren. They dressed up as characters from the period and took part in the interactive show. It was a fun afternoon.









Bod yn saff ar y rheilffordd
Fel rhan o ymgyrch cadw yn saff ar y rheilffyrdd death dwy blismones rheilffyrdd i sgwrsio a disgyblion 5 a 6. Cawson nhw weld sleidiau o bethau perygl ar y rheilffordd a wedyn cafwyd cwis ar y wybodaeth. Cafwyd nifer o negeseuon pwysig a dysgwyd llawer am sut i ymddwyn pan yn teithio ar drênau. Diolch yn fawr iawn iddynt am ymweld â ni.

As part of Rail Safety, 2 transport officers came to talk to year 5 and 6. It was really interesting as even though we do not have a railway near us, many of the children have travelled on a train. We were given many important lessons and learnt a lot about how to behave while travelling on trains safely. We also had a quiz to test our knowledge.
Thank you for visiting.

postterrig@hwbcymru.net



Eisteddfod Treuddyn
Diolch i bawb a wnaeth gymeryd rhan yn Eisteddfod Treuddyn.  Fe wnaeth nifer ohonoch dderbyn gwobr unai wrth ganu, lefaru neu waith cartref.
Hefyd, diolch yn fawr iawn i'r genod am ddawnsio yn seremoni gadeirio.  Fe wneathon nhw ddawnsio yn berffaith.  Hefyd da oedd gweld ein cyn-ddisgyblion ar y llwyfan â oedd yn rhan o'r seremoni.

Thank you to everyone who supported Eisteddfod Treuddyn.  Many of you won a prize, singing, reciting, handwriting and drawing.
Thank you also to the girls who danced during the ceremony.  They danced brilliantly and did themselves proud.  They all looked lovely in their dresses.
Also, it was lovely to see some our ex-pupils taking part in the ceremony.





Cynghorau
Mae gan yr ysgol nifer o Gynghorau a mae'r Criw Cymraeg wedi bod yn hynod brysur y tymor hwn. Gwahoddwyd ein Llywodraethwyr i gyflwyniad gan y Criw Cymraeg. Cafwyd cwis ar y dechrau ac yna fe wnaeth y Criw Cymraeg gyflwyno yr holl weithgareddau maent wedi ei wneud yr hanner tymor hwn. Cystadleuaeth pa ddosbarth sydd yn gwylio y mwyaf o raglenni Cymraeg, braweddegau cywir yr wythnos, ble mae'r ddraig yn mynd pob penwythnos a nifer o weithgareddau eraill. Roedd pob un ohonynt wedi dylunio logo ar gyfer y Criw Cymraeg. Cafodd gweddill yr ysgol bledleisio pa logo redden nhw am ei ddefnyddio. Llongyfarchiadau i Marnie.
Diolch i Miss Hughes

The school have so many different School Councils. The Criw Cymraeg have been so busy this half term. They invited our Governors to school and presented to them and the whole school about the activities they have achieved this term. Some of the activities were; Which class watches the most Welsh Television, sentence of the seek, where does the Red Dragon visit every weekend and lots of other activities. Also, they had all been nusy designing a logo and the whole school had a chance to vote. Marnie won, so a big congratulations to Marnie. Also, a big thank you to Miss Hughes.






Neges Bwysig am Ddarllen

Mae gan bob plentyn gyfrif DarllenCo. Rhaglen ddarllen llyfrau Cymraeg ydy DarllenCo. Mae'r plant yn cael llyfrau gosod ac yn ateb cwestiynau ar y llyfr ar ddiwedd y rhaglen. Mae hwn yn gynllun i wella darllen eich plentyn ac mae yn hanfodol eich bod yn eu cefnogi.

Dros yr hanner tymor bydd llyfrau wedi cael eu gosod ar gyfer eich plentyn a fuasech cystal a sicrhau eu bod yn cwblhau y dasg.

Reading

Every pupil has a DarllenCo account. It is a Welsh programme full of Welsh books. The children are tasked with books to read and questions to answer at the end of each book. This is a programme to improve and support your child's reading. It is important that you help your child with their reading.

Over half term books will be tasked to every child. Please could you make sure that your child completes the task.

DIOLCH

Ysgol Iach
Mae'r Cyngor wedi bod yn brysur yn trefnu gweithgareddau. Bu i bawb gymeryd rhan yn dangos y cerdyn coch i hiliaeth. Daeth pob plentyn i'r ysgol yn gwisgo dilledyn coch a fe wnaethon nhw gael gwers ymhob dosbarth ar hiliaeth.
Hefyd, daeth pawb a thedi i'r ysgol i gymeryd rhan yn ymgyrch 'restart a heart' Cafwyd gwers ar sut i wneud CPR a chodi ymwybyddiaeth pa mor bwysig ydy hi i helpu pobl.




DCXLVI X=10
LX=60 L=50


Dosbarth Meillion
Digidol
The Roman Army needs You!
golden

Cyngor Eco
Ail-gylchu
Cafodd dosbarth Meillion prynhawn gwych yng nghwmni Andrea a Phil o dîm kerbside recycling. Aethom ar daith i'r pentref i gasglu sbwriel a dysgu am bwysigrwydd ailgylchu.

Meillion class had a great afternoon in the company of Andrea and Phil from the Kerbside Recycling Team.  We went round the village collecting rubbish and learnt about the importance of recycling



Daeth Maisie a Enfys o'r heddlu draw am dro i gael cinio gyda yr ysgol.  Dyma nhw gyda dosbarth Meillion.

Maisie and Enfys from the police came and had lunch with the children.  Here they are with Meillion class.




Chwaraeon
Mae'r timau chwaraeon wedi bod yn brysur iawn. Mae tim pêl droed cymysg blwyddyn 5 a 6 wedi cystadlu yn nhwrnament Ysgolion Bach Sir Y Fflint.  Mae tim pêl droed 3 a 4 wedi cystadlu mewn twrnament.  Cafodd plat 3 a 4 gêm yn erbyn Ysgol Parc Y Llan a mwynhau eu hunain.  Ac fe aeth tim cymysg 5 a 6 i dwrnament yng Nglannau Dyfrdwy.  Diolch Miss Hughes

The sport teams have been so busy.  The mixed team of boys and girls took part in the small school competition.  Year 3 and 4 took part in another tournament.  Year 3 an 4 also, played a match against Parc Y Llan and I have been told we were so much better!  And year 5 and 6 went to a competition in Deeside.  Diolch Miss Hughes

 postterrig@hwbcymru.net






postterrig@hwbcymru.net



Taith Lerpwl
Fe aeth dosbarth Blwyddyn 5 a 6 i Lerpwl i amgueddfa 'Western Approaches'. Byncer cyfrinachol oedd yr amgueddfa. Ar un adeg roedd rhaid arwyddo yr 'Official Secrets Act' i gael mynediad i'r adeilad. Cerddodd y plant drwy ystafelloedd cyfrinachol lle ar un adeg roeddent yn ysbïo ar y gelyn. Diwrnod gwerth chweil.


Year 5 and 6 went to Liverpool to the fabulous Western Approaches Museum. This was a secret bunker right in the middle of Liverpool during the Seconds World War. Once upon a time you had to sign the Official Secrets Act to gain entry into the building. The children walk through the secret rooms where once upon a time they spied on the enemy. An Amazing day.



MARINES


THE SHIP
SUCKER!
For Washing


DANGER
DANGER




MOST
SECRET





Presenoldeb
Diolch am eich cefnogaeth gyda phresenoldeb eich plant. Mae hyn yn darged sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru ac bydd presenoldeb yn cael ei fonitro unwaith eto ym mis Tachwedd.
Byddwch yn ymwybodol bod ysgol yn cychwyn am 8.50
Os ydych yn hwyr mae hyn yn cael ei gyfrif fel absenoldeb di-awdurdod. Mae rhaid cyrraedd ar amser.
Rwy'n siwr eich bod yn deall os yw eich plentyn yn sâl eu bod yn aros adref. Er hynny mi fydd salwch yn cael ei fonitro yn ofalus.
Mae'r ysgol yn caniatau gwyliau os yw presenoldeb eich plentyn yn gyson yn yr ysgol a rhaid cofio mai ar ddisgresiwn y caniateir hyn, nid yw yn ganiatal ei fod yn cael ei awdurdodi.

Attendance
Thank you so much for supporting school with your child's attendance. This is a Welsh Government priority and from now on it will be monitored once every half term.
Please be mindful that school starts at 8.50.
If you are late this is a unauthorised absence. It is so important to arrive on time.
I'm sure you understand if you child is ill that they should stay at home. However, illnesses are also monitored.
School does authorise holidays as long as your child's attendance is consistent. Please be mindful that it is the school's discretion if your holiday is authorised, it should not be taken for granted.

Dyddiadau Pwysig

| | | |
|---|---|---|
| Nôl i'r ysgol | Tachwedd 4 November | Back to school |
| Taith Sŵ i Blwyddyn 1 a 2 | Tachwedd 7ed November | Year 1 and 2 Zoo |
| Tempest – lluniau unigol | Tachwedd 10 November | Tempest – individual photos |
| Wythnos Gwrth-fwlio | Tachwedd 10 – 14 November | Anti-Bullying Week |
| Socs-ôd am gwrth fwlio | Tachwedd 11 November | Odd-socks day for anti-bullying |
| Plant mewn angen | Tachwedd 14 November | Children in Need |
| Taith Park in th Past bl 3 a 4 | Tachwedd 14 November | Year 3 a 4 Park in the Past trip |
| Dewch a siocled i'r ysgol PTA | Tachwedd 21 November | Bring a chocolate to school PTA |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithdy Dŵr Cymru | Tachwedd 26 - November | Dŵr Cymru Workshop |
| Ffair Nadolig | Rhagyfr 2 December | School Christmas Fair |
| Panto Cinderella | Rhagfyr 10 December | Panto Cinderella |
| Cyngerdd Nadolig 3,4,5,a 6 pm | Rhagfyr 15 December | Concert 3,4,5 and 6 pm |
| Cyngerdd M,D 1 a 2 pm | Rhagfyr 16 December | M,D 1 a 2 concert pm |
| Cyngerdd 3,4,5 a 6 gyda'r nos | Rhagfyr 16 December | Concert 3,4,5 and 6 evening |
| Sioe CYW Wrecsam am | Rhagfyr 17 December | Cyw Show Wrexham am |
| Cyngerdd M,D 1 a 2 pm | Rhagfyr 17 December | M,D 1 a 2 Concert pm |
| Disco Nadolig pm | Rhagfyr 18 December | Christmas Disco pm |
| Cau am y Nadolig | Rhagfyr 19 December | Close for Christmas |

Teithiau Preswyl

Mae Blynyddoedd 3,4 a 5 wedi cael llythyrau teithiau preswyl.
Sicrhewch eich bod yn talu ar amser. Mae'r cwmniau yn mynnu ein bod yn talu ar amser ac ein bod yn rhoi gwir rifau iddynt. Felly rhaid talu blaendâl ar amser. Os ydych yn talu blaendâl bydd rhaid talu am y pris llawn os nad oes gennych nodyn Dr i ddweud yn wahanol. Diolch

Year 3,4,5 residential trips have been organised.
Please make sure you pay your deposit on time. The companies insist we have to pay on time and we have to give final numbers. If you do pay a deposit you will have to pay the full amount for the trip unless you have a Dr's note. Thank you

| Taith | Blaendâl erbyn / Deposit by | Trip |
|---|---|---|
| Blwyddyn 3 Canolfan Conwy | Tachwedd 14 November | Year 3 Conwy Centre |
| Blwyddyn 4 Glan Llyn | Tachwedd 21 November | Year 4 Gan Llyn |
| Blwyddyn 5 Caerdydd | Tachwedd 21 November | Year 5 Cardiff |

Unwaith eto – DIOLCH yn fawr iawn i'r PTA am eu holl waith. Mae nhw yn hynod o dda am wneud paned. Hefyd, diolch am y disco Calan Gaeaf.

Once again – THANK YOU to our PTA. They are amazing at making a cup of tea! Also, thank you for the Hallowe'en Disco.

Côd QR ar gyfer Llythyrau
QR code for Newsletters

Côd QR ar gyfer Calendar
QR code for Calendar

**Dillad Addysg Gorfforol**
Crys-t gwyn / crys-t Ysgol Terrig neu Crys-t dathlu 70
Siwmper Ysgol
Leggings/joggers/siorts du neu las

Clybiau ar ôl Ysgol tan 4pm
School Clubs until 4pm

| Diwrnod /Day | Ar ôl ysgol |
|---|---|
| Dydd Llun / Monday | Chwaraeon blwyddyn 3-6<br>Sport Club year 3-6<br>Clwb Lego D 1 a 2<br>Lego Club D 1 a 2 |
| Dydd Mawrth / Tuesday | Pel droed 5 a 6 gyda Mr Ashford<br>Football 5 and 6 with Mr Ashford |
| Dydd Mercher / Wednesday | Perfformio 3,4,5 a 6<br>Drama 3,4,5 a 6 |
| Dydd Iau / Thursday | |
| Dydd Gwener / Friday | |

**Ysgol Iach**
Mae Ysgol Terrig yn Ysgol Iach ac felly dim ond ffrwyth neu lysiau gellir ei gael amser byrbryd bore a diod o ddŵr. Rydym yn darparu llefrith.
Nid ydym yn caniatau iogwrts, caws, fruit winders nac unrhyw beth arall.

Amser cinio fe gawn nhw unrhyw beth mae nhw eisiau yn eu bocsys bwyd a diodydd blasau eraill

Healthy Schools
Ysgol Terrig is a healthy school. Only fruit or veg are allowed at morning break times and water. Milk is provided.
We do not allow anything else, no yoghurt, cheese, fruit winders etc…

Lunch time they can whatever they like in their lunch boxes and squash





Diolch / Thank you

Unwaith eto diolch i chi fel rhieni am fod yn gefnogol.
Once again thank you for being the best parents.